

## Plant ac Ieuenctid

### Darlleniad: Marc 10: 13-16

---

---

O! Dduw, ein Tad nefol, atat ti y dymunwn droi yn awr mewn gweddi. Cymhwysa ni i gyd i agosáu atat mewn ysbryd a gwirionedd er mwyn i'th enw di a'th enw di yn unig, gael ei ddyrchafu yn ein plith.

Trugarha wrthym, O! Arglwydd, am inni'n aml ein dyrchafu'n hunain, hyd yn oed o'th flaen di. Dysg ni, felly, o'r newydd, pwy wyt ti a beth ydym ni mewn gwirionedd.

Canmolwn di am dy fawredd a'th allu yn cynnal ac yn cyfarwyddo pob un ohonom hyd y foment hon. Diolchwn i ti, Arglwydd, am blant ein gwlad a'n byd - ti, yr un a gymerodd blant yn ei freichiau ei hun a'u bendithio. Deisyfwn arnat i gymryd plant Cymru a'r byd yn dy freichiau heddiw, O! Dad.

Fe ddatguddiaist dy hun O! Dduw yng nghyflawnder yr amser, yn dy fab dy hun, Iesu Grist ein Harglwydd. Ac fel y bu yntau'n blentyn unwaith, gweddiwn heddiw dros holl blant ein gwlad a'n byd yn eu diniweidrwydd, eu symlrwydd a'u naturioldeb. Cawn ein hatgoffa O! Dad yng ngeiriau Crist ei hunan:

‘Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhywstro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi.’

Maddau inni, Arglwydd, am inni'n aml lesteirio dy freichiau di rhag anwesu ac anwylo'r plant sydd o'n cwmpas heddiw. Dysg ni mai trwy fod fel plentyn, yn naturiol a gonest, y mae inni etifeddu'r deyrnas. Bendigwn di, Arglwydd, am dwf a thyfiant a phrifiant corfforol a meddyliol yn hanes pob plentyn. ‘Cynyddu mewn

doethineb a maintioli, a ffafr gyda Duw a dynion,' wnaeth Iesu ei hun, meddai'r Gair. Diolchwn i ti, O! Dad, am asbri a nwyf ac anturiaeth pobl ifanc pob oes. Gwyddost Arglwydd, bod pobl ifanc yn agored ac yn hawdd eu dylanwadu a'u niweidio. Gwared ni, O! Dduw rhag inni eu ffrwyno a'u rhwystro a phylu eu ffyniant a'u tyfiant. Helpa ni i'w helpu hwy i sefydlu gwell byd o ddealltwriaeth a doethineb i'r dyfodol.

Diolchwn i ti, ein Tad, am bob awydd ac arwydd i dyfu fel Iesu ei hun, mewn maintioli a doethineb. Boed i'th Ysbryd yng Nghrist sicrhau dyfodol llawn a llawen i blant ac ieuenctid y cyfnod, er mwyn iddynt hwy yn eu tro arwain eraill at berson Crist.

Deisyfwn y cyfan hyn yn enw a theilyngdod Crist Iesu, ein Harglwydd. Amen.

*Eric Williams*